# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T)

### Cyflwyniad

1. Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yng nghyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2013. Mae'r papur hwn yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran trafodaethau ynghylch rheoliadau TEN-T.

### Y sefyllfa bresennol

2. Mae Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) wedi'u dynodi er mwyn hyrwyddo cydlyniant, rhyng-gysylltiad a rhyngweithrediad rhwydweithiau cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae rhaglen TEN-T yn ariannu prosiectau seilwaith ar gyfer ffyrdd, rheilffyrdd, dyfrffyrdd mewndirol, meysydd awyr, porthladdoedd, llywio â lloeren a systemau rheoli traffig ar y rhwydwaith dynodedig.

3. Mae polisi TEN-T wrthi'n cael ei adolygu ar lefel Ewropeaidd Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynigion ar gyfer Rheoliad TEN-T newydd ym mis Hydref 2011. Mae Rheoliad ategol ar y “Cyfleuster Cysylltu Ewrop” yn nodi'r cynigion ariannu ar gyfer y Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd.

4. Nodir isod y prif newidiadau i'r gyfundrefn TEN-T a gynigiwyd gan y Comisiwn:

- Troi'r canllawiau yn Rheoliad, a fydd yn uniongyrchol berthnasol i'r Aelod-wladwriaethau, awdurdodau lleol, gweithredwyr trafnidiaeth a rheolwyr seilwaith trafnidiaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.
- mabwysiadu ymagwedd ddwy haen at y TEN-T, sy'n cynnwys:
  - “Rhwydwaith Cynhwysfawr” sy'n ymgorffori'r holl ffyrdd, rheilffyrdd, dyfrffyrdd, meysydd awyr a phorthladdoedd sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd.
  - “Rhwydwaith Craidd” fel is-set lefel uwch, sydd â'r nod o ddod â llwybrau, nodau a chanolbwyntiau o bwys strategol at ei gilydd.
- Cymhwyso safonau a gofynion at y Rhwydwaith TEN-T cyfan, gan gynnwys terfynau amser cyfrwymol ar gyfer eu rhoi ar waith: 2030 ar gyfer y Rhwydwaith Craidd a 2050 ar gyfer y Rhwydwaith Cynhwysfawr.

5. Cynigiodd y Comisiwn hefyd Goridorau Craidd trawswladol, a reolir gan Gydgysylltydd Coridorau a benodwyd gan yr UE, fel system gyflawni.

6. Cytunodd y Cyngor Trafnidiaeth yn gyffredinol ar destun cyfaddawd a oedd yn lleihau cost a baich cyflawni'r safonau arfaethedig a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio â hwy.

7. Hefyd, ystyriodd Senedd yr UE gynigion y Comisiwn a chynigiodd lawer o newidiadau.

8. Mae trafodaethau i gytuno ar ddull gweithredu yn mynd rhagddynt ond maent yn tynnu at eu terfyn; Nod Llywyddiaeth Gweriniaeth Iwerddon yw sicrhau cytundeb erbyn diwedd mis Mehefin 2013.

**Y Rhwydwaith TEN-T craidd a chynhwysfawr arfaethedig yng Nghymru**

9. O dan y trefniadau TEN-T presennol dim ond un lefel o TEN-T sydd. Naill ai mae llwybrau yn rhan o'r rhwydwaith neu nid ydynt yn rhan ohono.

10. Byddai holl lwybrau, porthladdoedd a meysydd awyr presennol TEN-T yn awtomatig yn dod yn rhan o'r rhwydwaith cynhwysfawr ar ôl cwblhau'r adolygiad

11. Dim ond nifer fach a ddosbarthwyd yn rhai 'craidd' ar sail meini prawf a bennwyd gan y Comisiwn. Nodir isod y llwybrau a'r porthladdoedd arfaethedig sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd ar y map o rwydwaith 'craidd' Cymru:

    Rheilffyrdd Cludo Nwyddau:
    - Prif Linell De Cymru a Llinell Leol Aberdaugleddau

    Rheilffyrdd sy'n Cludo Teithwyr:
    - Prif Linell De Cymru i Gaerdydd
    - Crewe i Gaergybi

    Ffyrdd
    - M4: o'r naill ben i'r llall
    - A48(T): Pont Abraham i Gaerfyrddin
    - A40(T): Caerfyrddin i Borthladd Abergwaun
    - A55(T): Ewlo i Gaergybi diwedd yr A55
    - A494(T): Ewlo i Barc Glannau Dyfrdwy
    - A550(T): Parc Glannau Dyfrdwy i'r ffin â Lloegr

    Porthladdoedd
    - Caerdydd/Casnewydd (a gaiff eu trin fel porthladd 'clwstwr')
    - Aberdaugleddau

12. Caiff y fersiwn terfynol o fap 'craidd' a 'chynhwysfawr' Cymru ei llunio yn union ar ôl cytuno ar y gofynion yn y rheoliad TEN-T arfaethedig. Gall llwybrau, porthladdoedd a meysydd awyr a gynhwysir yn y rhwydwaith 'craidd' gael gafael ar gyllid gan y Cyfleuster Cysylltu Ewrop.